COP42

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Office of the Public Guardian

Gwneud cais i'r Llys Amddiffyn

www.publicguardian.gov.uk

Cynnwys

Rhan A	Cyflwyniad	7
	Ynglŷn â'r llyfryn hwn	7
	Y Ddeddf Galluedd Meddyliol	7
	Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd	8
	Y Llys Amddiffyn	8
Rhan B	A oes angen i mi fynd i'r Llys?	9
	Gwneud penderfyniadau ffurfiol ac anffurfiol	9
	Pa fath o benderfyniadau gall y Llys eu gwneud?	11
Rhan C	Sut ydw i'n gwneud cais i'r Llys?	12
	Caniatâd i wneud cais	12
	Pa ffurflenni cais sydd raid i mi eu cwblhau?	12
	Ceisiadau o fewn achosion	14
	Cyflwyno'ch cais	14
	Costau a threuliau	14

Cynnwys (parhad)

Rhan D	Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?	15
	Eich cais am ganiatâd	15
	Beth os caiff fy nghaniatâd i wneud cais ei wrthod?	15
	Cyflwyno'r cais	16
	Pwy fydd yn rhaid i mi hysbysu ynghylch fy nghais?	16
	Sut ydw i'n hysbysu'r person y mae'r cais yn ymwneud â hwy?	17
	Beth ydw i'n ei wneud ar ôl cyflwyno/ hysbysu?	18
Rhan E	Proses y Llys	19
	Pa bryd fydd y Llys yn gwneud penderfyniad heb	19
	Pa bryd fydd y Llys yn penderfynu rhoi cyfarwyddiadau?	20
	Beth sy'n digwydd os yw'r Llys yn penderfynu cynnal gwrandawiad?	20
	Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Llys wneud orchymyn?	21
	Beth os wyf yn anfodlon â phenderfyniad y Llys?	21

Cynnwys (parhad)

Rhan F	Cymorth a chysylltiadau	23
	Pwy all gynorthwyo gyda fy nghais?	23
	Darllen Pellach	23
	Cysylltwch â ni	23
	Cysylltiadau ar frys	24
	Ymwadiad	24

Atodiad 1: Ffurflenni cais yn ôl y math o gais	25
Atodiad 2: Disgrifiad o ffurflenni perthnasol y Llys	30
Atodiad 3 Rhestr Geiriau	34

Rhan A: Cyflwyniad

Ynglŷn â'r llyfryn hwn

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r broses ar gyfer cyflwyno cais i'r Llys Amddiffyn (y 'Llys'). Mae hefyd yn esbonio'r hyn y mae'r Llys yn ei wneud, pa benderfyniadau y mae'n medru eu gwneud, y pŵer sydd ganddo a sut y mae'n penodi Dirprwy i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd â diffyg galluedd.

Yn y llyfryn hwn, mae galluedd person (neu ddiffyg galluedd) yn cyfeirio'n benodol i'w galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg sydd angen ei wneud.

Mae'n bosib y bydd y rheiny sy'n darllen y cyfarwyddyd hwn, yn bwriadu gwneud cais eu hun i'r Llys, neu efallai eu bod nhw wedi penodi cyfreithiwr i'w cynorthwyo, a'u bod am ddeall y broses yn well.

Rhestrir y geiriau a'r termau allweddol a ddefnyddir, yn y Rhestr Geiriau yn Atodiad 3.

Mae modd lawrlwytho'r holl ffurflenni a dogfennau a grybwyllir yn y ddogfen hon o'n gwefan neu oddi ar CD y gallwn ddanfon atoch. Gallwch hefyd gysylltu â ni ac fe wnawn ni ddanfon copïau caled atoch.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformat 'hawdd ei darllen'

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac mae'n nodi sut y gellir gwneud penderfyniadau ar ran y rheiny sydd â diffyg galluedd meddyliol.

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn ac yn rhoi grym i bobl sydd â diffyg galluedd am resymau fel gorddryswch, strôc, anabledd, iechyd meddwl neu anaf i'r pen.

Rhaid i bawb sy'n gweithio gyda /neu'n gofalu am oedolyn sydd â diffyg galluedd o ran gwneud penderfyniadau penodol, gydymffurfio â'r Ddeddf wrth wneud unrhyw benderfyniadau neu weithredu ar ran y person hwnnw.

Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd

Y Gwarcheidwad Cyhoeddus (gyda chefnogaeth Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd) sy'n gyfrifol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol am

- oruchwylio Dirprwyon;
- cadw cofrestri o Ddirprwyon, Atwrneiaeth Barhaus ac Atwrneiaeth Arhosol; ac
- ymchwilio i unrhyw gwynion ynglŷn â Thwrneiod neu Ddirprwyon

Y Llys Amddiffyn

Y Llys yw'r Llys arbenigol ar gyfer holl faterion sy'n ymwneud â phobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol. Mae'r Llys yn gwneud penderfyniadau a phenodi Dirprwyon i wneud penderfyniadau er pennaf les y rheiny sydd â diffyg galluedd.

Rhan B: A oes angen i mi fynd i'r Llys?

Gwneud penderfyniadau ffurfiol ac anffurfiol

Man cychwyn y Ddeddf Galluedd Meddyliol yw y dylid honni bod gan y person y galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hun onid yr ymddengys nad oes ganddynt y galluedd i wneud hynny.

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai pobl gael y cymorth a'r gefnogaeth briodol i'w galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hun neu i gyfranogi i'r eithaf mewn unrhyw broses benderfynu.

Bwriad y Ddeddf yw sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir, neu weithred yr ymgymerir â hi, ar ran rhywun sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad drostynt hwy eu hunain, yn cael ei wneud er eu pennaf les.

Mae Adran 5 y Ddeddf yn amddiffyn gofalwyr, staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol i gynnal tasgau penodol heb ofni atebolrwydd. Gall hyn gynnwys gofal personol neu drin pobl sydd â diffyg galluedd i'w caniatáu i wneud hynny. Y nod yw cynnig cefnogaeth gyfreithiol ar gyfer gweithrediadau sydd angen eu cynnal er pennaf les y person, sydd, oherwydd diffyg galluedd yn eu rhwystro i roi caniatâd.

Serch hynny, mae cyfyngiadau pwysig ar weithrediadau sydd modd eu cynnal heb amddiffyniad rhag atebolrwydd. Ymhlith y meysydd allweddol mae defnydd amhriodol o ataliad neu lle mae rhyddid person sydd â diffyg galluedd yn cael ei amddifadu.

Yn y mwyafrif o achosion sy'n ymwneud â lles personol, bydd yr egwyddorion a rhestrir yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a hefyd ym Mhennod 5 a 6 y Cod Ymarfer, yn eich galluogi chi i:

- weithredu neu wneud penderfyniad er pennaf les rhywun sydd â diffyg galluedd; a
- darganfod ffyrdd o ddatrys anghytundebau ynglŷn â gweithrediadau neu benderfyniadau.

Mae yna sefyllfaoedd penodol serch hynny lle nad yw gwneud penderfyniadau anffurfiol yn briodol a bod cyflwyno cais i'r Llys Amddiffyn yn angenrheidiol. Gall hyn gynnwys:

- penderfyniadau sy'n anodd
- anghydfodau na ellir eu datrys; neu
- sefyllfaoedd lle mae rhaid gwneud penderfyniadau personol

Bydd gorchymyn gan y Llys fel arfer yn angenrheidiol ar gyfer materion sy'n ymwneud ag eiddo a materion pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau ariannol penodol drostynt eu hun.

Pa fath o benderfyniadau gall y Llys eu gwneud?

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae gan y Llys y pŵer i:

- wneud penderfyniadau ynghylch lles neu eiddo personol a materion pobl sydd â diffyg galluedd i wneud y fath benderfyniadau eu hun;
- gwneud datganiadau ynglŷn â galluedd person i wneud penderfyniad os nad oes modd dod i benderfyniad anffurfiol ynglŷn â gallu'r person i wneud penderfyniad;
- gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag achosion triniaethau meddygol difrifol, sy'n ymwneud â darparu, ymwrthod neu atal triniaeth i berson sydd â diffyg galluedd;
- penodi Dirprwy i wneud penderfyniadau cyfredol ar ran person sydd â diffyg galluedd, mewn perthynas naill ai â lles, eiddo a materion personol y person dan sylw; a
- gwneud penderfyniadau ynglŷn ag Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus (EPA) gan gynnwys p'un ai fod y pŵer yn ddilys, gwrthwynebiadau i gofrestru, cwmpas pwerau Atwrnai a diddymu pwerau Atwrnai.

Rhan C: Sut ydw i'n gwneud cais i'r Llys?

Caniatâd i wneud cais

Cam gyntaf y broses yw gweithio allan p'un ai fod angen arnoch ganiatâd gan y Llys i wneud cais.

Yn gyffredinol, **ni fydd** angen caniatâd arnoch i wneud cais i'r Llys os yw'r cais yn ymwneud ag eiddo a materion; serch hynny, mae yna rhai achosion sy'n ymwneud â phenodi a dileu ymddiriedolwyr, a nifer fach o geisiadau'n ymwneud ag ewyllysiau a rhoddion, lle bydd o bosib angen arnoch ganiatâd y Llys.

Yn gyffredinol **bydd** angen ganiatâd arnoch os yw'r cais yn berthnasol i les personol.

Os nad ydych yn siŵr p'un ai fod angen caniatâd arnoch, gallwch gysylltu â ni am gyngor.

Ffurflen COP2: Caniatâd. Mae modd cyflwyno'r ffurflen ganiatâd cyn neu ar yr un adeg â'ch Ffurflen COP1: Ffurflen gais. Os oes angen caniatâd arnoch i ymgeisio, ni all eich cais fynd yn ei flaen tan fod y caniatâd wedi ei rhoi.

Ceir hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â chaniatâd i wneud cais Yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 8A, sydd modd ei lawrlwytho o'n gwefan, neu cysylltwch â ni am gopi caled.

Pa ffurflenni cais sydd raid i mi eu cwblhau?

Bydd y ffurflenni cais sydd yn rhaid i mi eu cwblhau yn dibynnu ar y math o gais yr ydych am ei gyflwyno.

Mae Atodiad 1 yn rhestri'r ffurflenni sydd angen i chi gwblhau ar gyfer pob math o gais. Mae gan bob cais Gyfeirnod Adnabod.

Os ydych yn gwybod pa fath o gais yr ydych am ei gyflwyno gallwch lawrlwytho'r ffurflenni perthnasol o'n gwefan neu oddi ar CD y medrwn ei bostio atoch. Gallwch ein galw a byddwn yn danfon copïau caled atoch.

Mae gan Atodiad 2 ddisgrifiad o'r hyn y mae pob ffurflen Llys yn ei gynnwys

Mae'r gwahanol fathau o geisiadau y cewch eu gwneud i'r Llys fel a ganlyn.

- APP01: Yn ymwneud ag eiddo a materion yn unig a does dim angen caniatâd arnoch i wneud cais;
- APP02: Yn ymwneud ag eiddo a materion yn unig ac mae angen caniatâd arnoch i wneud cais;
- APP03: Yn ymwneud â lles personol yn unig a does dim Angen caniatâd arnoch i wneud cais
- APP04: Yn ymwneud â lles personol yn unig ac mae angen caniatâd arnoch i wneud cais;
- APP05: Yn ymwneud ag eiddo, materion a lles personol a does dim angen caniatâd arnoch i wneud cais
- APP06: Yn ymwneud ag eiddo a lles personol ac mae angen caniatâd arnoch i wneud cais;
- APP07: Cais yn ymwneud â chofrestru EPA (er mwyn gwrthwynebu cofrestriad neu wneud cais i gofrestru yn dilyn gwaharddiad);
- APP08: Cais i wrthwynebu (ar sail ragnodedig) i gofrestru LPA;
- APP09: Ailystyried penderfyniad y Llys a
- APP10: Apelio yn erbyn penderfyniad gan y Llys.

Ceisiadau o fewn achosion

Efallai y darganfyddwch fod angen datrys rhai materion tra bod eich cais yn mynd yn ei flaen, a chyn i'r Llys wneud ei benderfyniad terfynol. Er enghraifft, mae'n bosib bydd angen gweithredu i amddiffyn neu werthu eiddo'r person. Dylid defnyddio COP9: Rhybudd o gais i wneud cais o fewn achosion.

Ceir hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais o fewn achosion, yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 10A, sydd modd ei lawrlwytho o'n gwefan. Os nad ydych yn medru gwneud hyn, gallwch gysylltu â ni.

Cyflwyno'ch cais

Rhaid i chi gyflwyno'r gwreiddiol ac un copi o'ch cais cyfan (gan gynnwys yr holl ffurflenni a'r dogfennau ategol) i'r Llys.

Dylech hefyd gadw copi o bob dogfen yr ydych yn danfon atom, er mwyn i chi gyfeirio atynt.

Costau a threuliau

Os ydych wedi ceisio cymorth cyfreithiwr i gynorthwyo gyda'ch cais, yna eich cyfrifoldeb chi fydd talu'r costau oni fydd y Llys yn cyfarwyddo bod rhywun arall yn eu talu.

Mae ffioedd fel arfer yn daladwy pan eich bod yn cyflwyno ceisiadau gyda'r Llys. Mae gwybodaeth bwysig ynglŷn â ffioedd, eithriadau a dileadau wedi eu nodi mewn canllaw ar wahân sydd modd ei lawrlwytho o'n gwefan. Os nad ydych yn medru gwneud hyn gallwch gysylltu â ni.

Rhan D: Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?

Eich cais am ganiatâd

Os oes angen caniatâd arnoch i wneud cais, nod y Llys bydd delio â'ch cais am ganiatâd o fewn 14 diwrnod gwaith o'r dyddiad y byddant yn ei dderbyn. Bydd y Llys yn ystyried eich perthynas â'r person, eich rhesymau dros y cais, y manteision a'r dewisiadau amgen, wrth benderfynu p'un ai i roi caniatâd.

Fel arfer, bydd y Llys yn medru penderfynu ar gais heb gynnal gwrandawiad, serch hynny, bydd angen gwrandawiad Llys o bryd i'w gilydd.

Beth os caiff fy nghaniatâd i wneud cais ei wrthod?

Gweler yr adran isod ar 'Beth os wyf yn anfodlon â phenderfyniad y Llys?"

Cyflwyno'r cais

Os rhydd y Llys ganiatâd i chi gyflwyno cais, neu os nad oes angen caniatâd, pan ei fod yn derbyn eich cais cyflawn (y gwreiddiol ac un copi o'r holl ffurflenni a'r dogfennau ategol), fe fydd yn ei 'gyflwyno' drwy osod stamp gwreiddiol ar y ffurflen gais a'i ddychwelyd atoch ynghyd â'r ffurflenni canlynol:

COP5: Cydnabyddiaeth o gyflwyniad/hysbysiad;

COP14: Achosion ynglŷn â chi yn y Llys Amddiffyn;

COP14A: Canllawiau ar gyfer cwblhau ffurflen COP14;

COP15: Rhybudd bod cais wedi ei gyflwyno;

COP15A: Canllawiau ar gyfer cwblhau ffurflen COP15; a

COP20: Tystysgrif cyflwyno /methiant i gyflwyno a thystysgrif hysbysu/methiant i hysbysu

Pwy fydd yn rhaid i mi hysbysu ynghylch fy nghais?

O dan Reolau'r Llys Amddiffyn mae angen i chi hysbysu gwahanol bobl ynghylch eich cais, o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynir eich cais gan y Llys. Rhaid i chi:

- 'gyflwyno' copi o'ch ffurflen gais ac unrhyw ffurflenni neu ddogfennau a ddanfonwyd i gefnogi'ch cais ynglŷn ag unrhyw un a wnaethoch enwi fel atebydd yn eich cais;
- 'hysbysu' perthnasau ac eraill a enwir yn eich cais, sy'n debygol o fod â diddordeb yn eich cais gan ddefnyddio ffurflen COP15: Rhybudd bod ffurflen gais wedi ei chyflwyno; ac
- os yw eich cais yn gysylltiedig â gwrthwynebiad i gofrestru LPA neu EPA, cyflwyno copi o COP7: Cais i wrthwynebu cofrestru LPA neu COP8: Cais i wrthwynebu cofrestru EPA ar bob Atwrnai a'r Rhoddwr.

Pan fyddwch yn cyflwyno cais neu'n hysbysu pobl ynghylch eich cais rhaid i chi hefyd ddanfon y ffurflen COP5: Cydnabyddiaeth o gyflwyniad/hysbysiad, i bob person.

Y ffordd fwyaf cyffredin i gyflwyno neu hysbysu rhywun yw danfon dogfennau drwy bost dosbarth cyntaf i'w cyfeiriad cartref. Serch hynny, gallwch hefyd gyflwyno dogfennau drwy ffacs, cyfenwid dogfennau neu'n bersonol.

Sut ydw i'n hysbysu'r person y mae'r cais yn ymwneud â hwy?

O dan Reolau'r Llys Amddiffyn mae angen i chi hysbysu'r person y mae'r cais yn ymwneud â hwy, bod eich cais wedi'i gyflwyno gan y Llys. Dylech hefyd ddefnyddio'r weithdrefn hon os yw eich cais yn gysylltiedig ag EPA neu LPA ac os oes gennych reswm i gredu fod gan y Rhoddwr ddiffyg galluedd.

Rhaid darparu hysbysiad yn bersonol o fewn 21 diwrnod o'r Dyddiad y cyflwynwyd y ffurflen gais gan y Llys.

Rhaid i chi neu eich cynrychiolydd ddarparu'r wybodaeth mewn ffordd sy'n briodol i amgylchiadau'r person, er enghraifft defnyddio iaith syml, cymhorthion gweledol neu unrhyw fodd arall. Rhai i chi esbonio:

- pwy yw'r ymgeisydd
- bod y cais yn codi'r cwestiwn o p'un ai bod ganddynt ddiffyg galluedd a'r hyn y maen ei olygu;
- yr effaith a geir yn sgil canlyniad y cais;
- manylion unrhyw berson a benodir i wneud penderfyniadau ar eu rhan, a
- bod modd iddynt geisio cyngor a chymorth mewn perthynas â'r cais.

Rhaid i chi hefyd ddarparu'r ffurflenni canlynol i'r person y

COP5: Cydnabyddiaeth o gyflwyniad/hysbysiad; a

COP14: Achosion ynglŷn â chi yn y Llys Amddiffyn

Beth ydw i yn ei wneud ar ôl cyflwyno/hysbysu

Ar ôl i chi gyflwyno neu hysbysu pobl ynghylch eich cais rhaid i chi gwblhau a dychwelyd i'r Llys, y ffurflen COP20: Tystysgrif cyflwyno/ methiant i gyflwyno a thystysgrif hysbysu/methiant i hysbysu ar gyfer pob person a gyflwynwyd neu a hysbyswyd gennych. Dylech ddarparu hyn o fewn 7 diwrnod o ddyddiad y cyflwyno/hysbysu.

Os na fedrwch chi fodloni'r cyfnod amser 21 diwrnod ar gyfer cyflwyno a hysbysu, rhaid i chi esbonio hyn i'r Llys ar ffurflen COP20.

Ceir fwy o wybodaeth ynghylch cyflwyno a hysbysu yn COP1: Ffurflen gais a Chyfarwyddiadau Ymarfer 6A, 7A a 9B, sydd modd eu lawrlwytho o'n gwefan. Os nad ydych yn medru gwneud hyn, fe allwch gysylltu â ni.

Rhan E: Proses y Llys

Ar ôl i'r cyfnod cyflwyno a hysbysu ddod i ben, gall y Llys ystyried y cais a'r camau nesaf. Bydd hyn yn seiliedig ar y math o gais y gwnaethoch a p'un ai bod rhywun yn gwrthwynebu'r cais neu'n cynnig bod gorchymyn arall yn cael ei wneud. Efallai bydd y Llys yn penderfynu:

- gwneud penderfyniad ar sail y cais heb wrandawiad Llys;
- rhoi cyfarwyddiadau ynghylch eich cais a'r camau nesaf i'w cymryd, neu
- pennu dyddiad i'r Llys glywed eich cais

Pa bryd fyddai'r Llys yn gwneud penderfyniad heb wrandawiad?

Os na wnaeth unrhyw un wrthwynebu eich cais na chynnig bod gorchymyn gwahanol yn cael ei wneud, fe all y Llys fel arfer wneud penderfyniad heb yr angen am wrandawiad.

Pa bryd fyddai'r Llys yn penderfynu rhoi cyfarwyddiadau?

Os na fydd y Llys yn medru dod i benderfyniad terfynol, wrth iddo ystyried eich cais ar y cychwyn, fe all rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â'r hyn sydd yn rhaid i chi a/neu rhywun arall sy'n gysylltiedig â'r cais ei wneud er mwyn dod i benderfyniad ynghylch y mater. Gall cyfarwyddiadau gynnwys:

- darparu gwybodaeth ychwanegol;
- caffael adroddiadau gan Warcheidwad y Cyhoedd, ymwelydd i'r Llys neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- penderfynu p'un ai dylai unrhyw un arall, er enghraifft yr Awdurdod Iechyd, fod yn gysylltiedig â'r cais; neu
- pennu dyddiad neu amserlen ar gyfer gwrandawiad terfynol y cais

Beth sy'n digwydd os yw'r Llys yn penderfynu cynnal gwrandawiad?

Os yw'r Llys yn penderfynu cynnal gwrandawiad, byddwch chi a phawb arall sydd yn gysylltiedig â'r cais yn derbyn Ffurflen COP28: Rhybudd o wrandawiad. Bydd hyn yn cynnwys dyddiad, amser a manylion ynghylch lleoliad y gwrandawiad.

O fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y byddwch yn derbyn rhybudd o'r gwrandawiad (ac nid yn ddiweddarach na 14 diwrnod o ddyddiad y gwrandawiad), rhaid i chi hysbysu'r person y mae'r cais a wnelo â hwy, ynglŷn â dyddiad y gwrandawiad, gan ddefnyddio COP14: Achosion ynglŷn â chi yn y Llys Amddiffyn. Rhaid i chi hefyd esbonio iddynt bod yn rhaid iddynt geisio cyngor a chymorth mewn perthynas â'r gwrandawiad.

Rhaid i chi wedyn gwblhau a dychwelyd ffurflen COP20: Tystysgrif gyflwyno/methiant i gyflwyno a thystysgrif hysbysu/ methiant i hysbysu o fewn 7 diwrnod o wneud yr hysbysiad hwnnw.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Llys wneud orchymyn?

Ar ôl i'r Llys wneud ei benderfyniad danfonir copïau swyddogol i chi a phob parti arall.

Rhaid i chi hysbysu'r person y mae'r cais yn ymwneud â hwy, ynglŷn â'r gorchymyn terfynol, ei effeithiau, a'r ffaith bod modd iddynt geisio cyngor a chymorth mewn perthynas â'r gorchymyn, o fewn 21 niwrnod o'r gorchymyn terfynol. Rydych yn gwneud hyn drwy ddefnyddio ffurflen COP14: Achosion ynglŷn â chi yn y Llys Amddiffyn. Rhaid i chi hefyd gwblhau a dychwelyd ffurflen COP20: Tystysgrif cyflwyno/methiant i gyflwyno a thystysgrif Hysbysu/methiant i hysbysu o fewn 7 diwrnod o wneud yr hysbysiad hwnnw.

Dylech wirio'r holl wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn, gan gynnwys y sillafu, yn ofalus. Os sylwch ar unrhyw gamgymeriadau, dychwelwch yr holl gopïau sydd yn eich meddiant i'r Llys i'w diwygio. Peidiwch â newid y dogfennau eich hun, neu mi fyddant yn annilys.

Beth os wyf yn anfodlon â phenderfyniad y Llys?

Os gwneir y gorchymyn heb wrandawiad, neu heb rybudd i unrhyw berson a effeithir gan y gorchymyn, yna fe gewch chi neu unrhyw berson a effeithir gan y gorchymyn wneud cais i'r Llys i'w ailystyried. Gall y person y mae'r cais yn ymwneud â hwy, hefyd ofyn i'r Llys i ailystyried ei orchymyn.

Rhaid gwneud cais am ailystyriaeth o fewn 2 niwrnod o'r dyddiad y cyflwynir copi o'r gorchymyn i chi, gan ddefnyddio ffurflen COP9: Rhybudd o gais.

Os gwnaethpwyd y gorchymyn yn ystod gwrandawiad, cewch chi neu barti arall sy'n gysylltiedig â/neu unrhyw berson a effeithir gan y gorchymyn (gan gynnwys y person y mae'r cais yn ymwneud â hwy), ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad, drwy gyflwyno COP35: Rhybudd yr Apelydd.

Ceir fwy o wybodaeth ynghylch apelio yn erbyn Gorchmynion y Llys yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 20A

Rhan F: Cymorth a chysylltiadau

Pwy all gynorthwyo gyda fy nghais?

Gallwch gysylltu â'r Llys Amddiffyn a staff Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd a fydd o bosib yn medru eich cynorthwyo i gwblhau eich cais a'ch ffurflenni. Ni allwn ddarparu unrhyw gyngor na gwasanaethau cyfreithiol.

Gallwch gyfarwyddo cyfreithiwr i wneud cais ar eich rhan, gyda'r cyfrifoldeb arnoch chi i dalu'r ffioedd.

Darllen Pellach

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Rheolau'r Llys Amddiffyn 2007

Lawrlwythwch y rhain o'n gwefan neu cysylltwch â ni am gopi.

Cysylltwch â ni

Llys Amddiffyn a Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd
Archway Tower
2 Junction Road
London N19 5SZ

Rhif Ffôn: 0845 330 2900
Rhif Ffacs: 020 7664 7705
E-bost customerservices@publicguardian.gov.uk
Gwefan: www.publicguardian.gov.uk
DX: 141150 Archway 2

Ffôn Testun: 020 7664 7755 (Os oes gennych anawsterau gyda lleferydd neu glyw a gennych fynediad i ffôn testun, gallwch alw am gymorth.)

Galwadau Rhyngwladol: +44 20 7664 7000

Ffacsiau Rhyngwladol: +44 20 7664 7705

Cysylltiadau ar frys

Os oes gennych fater brys sydd yn syrthio o fewn oriau busnes, dylech ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Mewn gwir argyfwng, gallwch gysylltu adeg oriau busnes, â swyddfa diogelwch y Llysoedd Barn Brenhinol ar 020 7947 6000 am gymorth

Ceir fwy o wybodaeth ynglŷn â cheisiadau brys yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 10B, sydd modd ei lawrlwytho o'n gwefan.

Ymwadiad

Gall SGC a staff y Llys ddarparu cyngor ynglŷn â SGC a Phrosesau SGC a'r Llys yn unig, ac ni allant ddarparu cyngor neu wasanaethau cyfreithiol. Awgrymwn eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol lle'n briodol. Mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei argraffu, serch hynny nid ydym yn derbyn y cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad a geir ynddo.

Atodiad 1: Ffurflenni cais yn ôl y math o gais

Adnabyddiaeth	Y math o gais	Ffurflenni a dogfennau ategol
APP01	Yn ymwneud ag eiddo a materion yn unig a does dim angen caniatâd i wneud cais	COP1: Ffurflen gais COPIA Atodiad A: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud ag eiddo a materion COP3: Ffurflen asesu galluedd COP4: Ffurflen ddatganiad y Dirprwy (os ydych yn ymgeisio i fod yn Ddirprwy) Copi o'r LPA neu'r EPA (os yn berthnasol) Ffi Ymgeisio
APP02	Yn ymwneud ag eiddo a materion ac mae angen caniatâd arnoch i wneud cais	COP1: Ffurflen gais COPIA Atodiad A: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud ag eiddo a materion COP2: Ffurflen ganiatâd COP3: Ffurflen asesu galluedd Copi o'r LPA neu'r EPA (os yn berthnasol) Ffi Ymgeisio

Adnabyddiaeth	Y math o gais	Ffurflenni a dogfennau ategol
APP03	Yn ymwneud â lles personol yn unig a does dim angen caniatâd arnoch i wneud cais	COP1: Ffurflen gais COP1B: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â lles personol COP3: Ffurflen asesu galluedd COP4: Ffurflen ddatganiad y Dirprwy (os ydych yn ymgeisio i fod yn Ddirprwy) Copi o'r LPA neu'r EPA (os yn berthnasol) Ffi Ymgeisio
APP04	Yn ymwneud â lles personol yn unig ac mae angen i chi wneud cais	COP1: Ffurflen gais COP1B: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â lles personol COP2: Ffurflen ganiatâd COP3: Ffurflen asesu galluedd COP4: Ffurflen ddatganiad y Dirprwy (os ydych yn ymgeisio i fod yn Ddirprwy) Copi o'r LPA neu'r EPA (os yn berthnasol) Ffi Ymgeisio

Adnabyddiaeth	Y math o gais	Ffurflenni a dogfennau ategol
APP05	Yn ymwneud ag eiddo a lles personol a does dim angen i chi gael caniatâd i wneud cais	COP1: Ffurflen gais COPIA Atodiad A: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud ag eiddo a materion COP1B: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â lles personol COP3: Ffurflen asesu galluedd COP4: Ffurflen ddatganiad y Dirprwy (os ydych yn ymgeisio i fod yn Ddirprwy) Copi o'r LPA neu'r EPA (os yn berthnasol) Ffi Ymgeisio

Adnabyddiaeth	Y math o gais	Ffurflenni a dogfennau ategol
APP06	Yn ymwneud ag eiddo a materion a lles personol ac mae angen caniatâd arnoch i wneud cais	COP1: Ffurflen gais COPIA Atodiad A: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud ag eiddo a materion COP1B: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â lles personol COP2: Ffurflen ganiatâd COP3: Ffurflen asesu galluedd COP4: Ffurflen ddatganiad y Dirprwy (os ydych yn ymgeisio i fod yn Ddirprwy) Copi o'r LPA neu'r EPA (os yn berthnasol) Ffi Ymgeisio
APPO7	Cais yn ymwneud â chofrestru Atwrneiaeth Barhaus (i wrthwynebu cofrestru neu wneud cais i gofrestru yn dilyn gwaharddiad)	COP8 neu COP1 (yn ôl pwy yw'r ymgeisydd – gweler ddisgrifiadau'r ffurflenni yn Atodiad 2) COP24: Datganiad y Tyst (os yw'r ymgeisydd/gwrthwynebwr yn dymuno darparu tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol

Adnabyddiaeth	Y math o gais	Ffurflenni a dogfennau ategol
APP08	Cais i wrthwynebu (ar sail ragnodedig) cofrestru Atwrneiaeth Arhosol	COP7 neu COP1 (yn ôl pwy yw'r ymgeisydd – gweler ddisgrifiadau'r ffurflenni yn Atodiad 2) COP24: Datganiad y Tyst (os yw'r ymgeisydd/gwrthwynebwr yn dymuno darparu tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol
APP09	Ailystyriaeth o benderfyniad y Llys	COP9: Rhybudd o gais Copi o orchymyn Llys yr ydych am i'r Llys ei ailystyried
APP10	Apêl yn erbyn penderfyniad y Llys	COP35: Rhybudd yr Apelydd COP37: Dadl Amlinellol COP24: (os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'ch apêl) Ffurflen gais wreiddiol (os yn berthnasol i'r apêl) Copi o orchymyn Llys yr ydych yn dymuno apelio Ffi Ymgeisio

Atodiad 2: Disgrifiad o ffurflenni perthnasol y Llys

COP1: Ffurflen gais

Defnyddir y ffurflen hon i gychwyn achosion yn y Llys, a noda'r gorchymyn y mae'r ymgeisydd yn gofyn i'r Llys i'w gyflwyno. Pan fo'r Llys yn cyflwyno'r Ffurflen gais, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno copi a hysbysu eraill (gan gynnwys y person y mae'r cais yn ymwneud â hwy), bod y Ffurflen gais wedi ei chyflwyno

COPIA Atodiad A: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud ag eiddo a materion

Rhaid ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys, gyda'r ffurflen gais COP1 pan fo'r cais yn ymwneud ag eiddo a materion

COP1B: Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â lles personol

Rhaid ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys, gyda'r Ffurflen gais COP1 pan fo'r cais yn ymwneud â lles personol.

COP2: Ffurflen ganiatâd

Rhaid ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys, gyda'r ffurflen COP1: Ffurflen gais, lle mae angen caniatâd i wneud cais

COP3: Asesu Galluedd

Rhaid ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys gyda ffurflen COP1: Ffurflen Gais. Mae ymarferydd (fel ymarferydd meddygol, seiciatrydd neu seicolegydd) yn cwblhau rhan o'r ffurflen a darparu asesiad o alluedd person mewn perthynas â'r mater(ion) y gofynnir i'r Llys benderfynu yn ei/eu g(c)ylch. Efallai bydd yr ymarferydd yn codi tâl am gwblhau asesiad o alluedd.

Noder: Nid oes angen y ffurflen hon pan fo'r cais yn ymwneud â LPA neu EPA

COP4: Datganiad y Dirprwy

Rhaid ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys, ynghyd â ffurflen COP1: Ffurflen gais lle gofynnir i'r ymgeisydd i benodi Dirprwy. Gall y Llys ddefnyddio'r wybodaeth i asesu addasrwydd y person i fod yn Ddirprwy.

COP5: Cydnabyddiaeth o wasanaeth/hysbysiad

Mae'n rhaid i bobl sydd yn cael eu cyflwyno neu eu hysbysu a ffurflen COP1: Ffurflen gais, ac sydd am gymryd rhan yn yr achosion, ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys.

COP7: Cais i wrthwynebu (ar sail ragnodedig) cofrestru Atwrneiaeth Arhosol (LPA)

Defnyddir y ffurflen hon i wrthwynebu i'r cofrestriad gan:

- Twrnai penodol; neu
- person sydd â hawl i gael ei hysbysu ynglŷn â'r cais i gofrestru LPA

COP8: Cais sy'n ymwneud â chofrestru Atwrneiaeth Arhosol (EPA) (i wrthwynebu cofrestriad neu wneud cais i gofrestru yn dilyn gwaharddiad)

Defnyddir y ffurflen hon gan:

- y Rhoddwr;
- Twrnai penodol; neu
- perthynas i'r Rhoddwr sydd â hawl i gael eu hysbysebu ynglŷn â chais i gofrestru RPA

COP9: Rhybudd o gais

Defnyddir y ffurflen hon ar gyfer gwahanol fathau o geisiadau, gan gynnwys ceisiadau a wneir yn hynt achosion presennol.

COP10: Rhybudd o gais gan ymgeiswyr i'w huno fel parti

Mae angen i bobl sydd am wneud cais i'w huno fel parti mewn achosion, ddefnyddio'r ffurflen hon (lle nad ydynt yn un o'r bobl hynny sydd yn medru ffeilio'r COP5: Cydnabyddiaeth o gyflwyniad/hysbysiad).

COP14: Achosion ynglŷn â chi yn y Llys Amddiffyn

Defnyddir y ffurflen hon i esbonio'r mater i'r person y mae'r cais yn ymwneud â hwy (h.y. y person sydd â diffyg galluedd, neu a honnir fod ganddynt ddiffyg galluedd) y darperir hysbysiad ar eu cyfer, yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir yn bersonol.

COP14A: Canllawiau ar gyfer cwblhau ffurflen COP14

COP15: Rhybudd bod ffurflen gais wedi ei gyflwyno

Defnyddir y ffurflen hon i hysbysu pobl sy'n debygol o fod â diddordeb fod ffurflen gais wedi ei chyflwyno gan y Llys.

COP15A: Canllawiau ar gyfer cwblhau ffurflen COP15

COP20: Tystysgrif cyflwyno/methiant i gyflwyno a thystysgrif hysbysu/methiant i hysbysu

Rhaid ffeilio'r ffurflen hon gyda'r Llys i gadarnhau bod dogfen wedi ei chyflwyno neu fod hysbysiad wedi ei ddarparu. Rhaid ffeilio tystysgrif ar wahân ar gyfer pob person bob tro y cyflwynir dogfen neu hysbysiad.

COP28: Rhybudd o wrandawiad

Bydd y Llys yn danfon y rhybudd hwn i hysbysu pobl ynghylch dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad

COP35: Rhybudd yr Apelydd

Cyflwynir y rhybudd hwn pan fod person yn dymuno Apelio yn erbyn penderfyniad gan y Llys.

COP36: Rhybudd yr Atebydd

Defnyddir gan atebwyr i apêl, sy'n dymuno apelio yn erbyn yr un gorchymyn neu ofyn i'r Llys i gynnal y gorchymyn.

COP37: Dadl Amlinellol

Defnyddir gan apelyddion ac ymatebwyr sy'n apelio yn erbyn gorchymyn i ddarparu dadleuon o blaid eu hapêl.

Atodiad 3 Rhestr Geiriau

Twrnai	Rhywun a benodwyd o dan naill ai Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus(EPA) sydd â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau o fewn cwmpas eu hawdurdod ar ran y person (y Rhoddwr) a wnaeth y Pŵer Atwrnai.
Pennaf les	Rhaid i unrhyw benderfyniadau neu unrhyw beth a wneir ar gyfer person sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol, gael eu gwneud er bennaf les y person. Mae yna gamau safonol i'w dilyn wrth fodloni pennaf les y person. Maent wedi eu nodi yn adran 4 y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
Galluedd	Y gallu i wneud penderfyniad ynghylch mater penodol ar yr adeg sydd angen i'r penderfyniad gael ei wneud. Mae diffiniad cyfreithiol person sydd â diffyg galluedd wedi ei nodi yn adran 2 y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
Cod Ymarfer	Mae'r Cod Ymarfer yn ganllaw ymarferol sy'n cefnogi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'n esbonio sut y bydd y Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd, ac yn cynnig esiamplau o arfer da i ofalwyr ac ymarferwyr
Llys Amddiffyn	Y Llys arbenigol ar gyfer holl faterion sy'n ymwneud â phobl sydd â diffyg galluedd, i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau penodol

Deddf Diogelu Data 1998	Cyfraith sy'n rheoli ymdrin ag, a mynediad i wybodaeth personol fel cofnodion meddygol, ffeiliau a ddelir gan gyrff cyhoeddus a gwybodaeth ariannol a ddelir gan asiantaethau cyfeirio credyd.
Dirprwy	Rhywun a benodir gan y Llys, gydag awdurdod cyfreithiol cyfredol fel y rhagnodwyd gan y Llys i wneud penderfyniadau ar ran person sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol fel y rhestrir yn adran 16(2) y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
Rhoddwr	Person sy'n gwneud Atwrneiaeth Arhosol neu Atwrneiaeth Barhaus
Atwrneiaeth Barhaus (EPA)	Pŵer Atwrnai a grëwyd dan Ddeddf Atwrneiaeth Barhaus 1985, felly'n penodi Atwrnai i ddelio ag eiddo a materion ariannol y Rhoddwr. Bydd yr EPA presennol yn parhau i weithredu dan Restr 4 y Ddeddf Galluedd Meddyliol sy'n disodli'r Ddeddf EPA 1985
Offeryn	Y ffurflen a ddefnyddir i greu Atwrneiaeth Arhosol.
Ar y cyd (neu 'gyda'i gilydd')	Rhaid i Atwrneiod a benodir 'ar y cyd' weithredu gyda'i gilydd bob amser. Rhaid iddynt oll gytuno cyn gwneud rhywbeth ar eich rhan. Os nad yw un Atwrnai yn cytuno gyda gweithrediad arfaethedig, ni fydd modd gwneud y penderfyniad hwnnw

Ar y cyd neu bob yn un (neu 'gyda'i gilydd ac yn annibynnol')	Gall Atwrneiod a benodwyd 'ar y cyd neu bob yn un' weithredu ar eu pennau'u hun a gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu y gall Atwrnai benderfynu ar fater unigol, yn annibynnol o'r lleill. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os nad yw eich Atwrneiod bob amser yn yr yn lle ar yr un pryd.
Atwrneiaeth Arhosol	Pŵer atwrnai a grëwyd dan Ddeddf Galluedd Meddyliol (gweler Adran 9(1) penodi Atwrnai i wneud penderfyniadau ynghylch lles personol Rhoddwr (yn cynnwys gofal iechyd) a/neu ddelio ag eiddo a materion y Rhoddwr
Galluedd Meddyliol	Gweler 'Galluedd'
Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd	Swyddog a sefydlwyd dan Adran 57 y Ddeddf Galluedd Meddyliol yw Gwarcheidwad y Cyhoedd. Cefnogir Gwarcheidwad y Cyhoedd gan Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd a fydd yn goruchwylio Dirprwyon, cadw cofrestr o Ddirprwyon, LPA, EPA, ac ymchwilio i unrhyw gwynion ynghylch Atwrneiod neu Ddirprwyon. Mae'r SGC yn cymryd lle'r Swyddfa Gwarcheidiaeth Gyhoeddus (SGG) a fu mewn bodolaeth ers blynyddoedd lawer.

Lles personol	Mae penderfyniadau lles personol yn benderfyniadau a wneir ynghylch gofal iechyd person, lle maen nhw'n byw, pa ddillad y maen nhw'n eu gwisgo, yr hyn y maen nhw'n ei fwyta ac unrhyw beth sydd ei angen ar gyfer eu gofal cyffredinol a'u lles. Mae modd penodi Atwrneiod a Dirprwyon i wneud penderfyniadau ynghylch lles personol person sydd â diffyg galluedd. Mae nifer o weithrediadau gofal yn ymwneud â lles personol.
Eiddo a materion	Unrhyw eiddo sydd gan berson (fel tŷ neu fflat, gemwaith neu eiddo arall), yr arian sydd ganddynt o ran incwm, cynilion neu fuddsoddiadau ac unrhyw wariant. Mae modd penodi Atwrneiod a Dirprwyon i wneud penderfyniadau ynghylch eiddo a materion ar ran person sydd â diffyg galluedd.
Gwarcheidwad y Cyhoedd	Gweler 'Swyddfa Gwarcheidiaeth y Cyhoedd'

Court of Protection

COP42 – Gwneud cais i'r Llys Amddiffyn (10.07)

© Hawlfraint y Goron 2007